**Cyfarfod Llawn 2002 - 2003 (24)**

**Dydd Mercher, 23 Hydref 2002**

# PLEIDLEISIAU A THRAFODION

**Dechreuodd y Sesiwn am 2.00pm**

**Cwestiwn Brys**
Atebodd Prif Weinidog Cymru gwestiwn brys gan Ieuan Wyn Jones ar ba gynlluniau wrth-gefn sydd wedi cael eu gweithredu i sicrhau diogelwch pobl Cymru yn ystod unrhyw gyfnod pan fydd y gwasanaeth tân ar streic.

**2.18pm**
**Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd**
Atebwyd y 5 cwestiwn cyntaf.

**2.40pm**
**Cwestiynau Cyllid i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau**
Atebwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 7 yn ôl.

**2.49pm**
**Datganiad: Gwnaeth Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar Uwchgynhadledd y Ddaear yn Johannesburg**

**3.28pm**
**Datganiad: Gwnaeth y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad ar Roi Cefnogaeth i Blant a Rhieni yng Nghymru.**

**3.58pm**
**Cymeradwyo, o dan Reol Sefydlog 22.25 a 23.10, *Pesticides (Maximum Residue Levels in Crops, Food and Feeding Stuffs) (England and Wales) (Amendment) (No 2) Regulations 2002***
***NDM1185 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

Gan weithredu o dan Reol Sefydlog 23.10 yn cymeradwyo *Pesticides (Maximum Residue Levels in Crops, Food and Feeding Stuffs) (England & Wales) (Amendment) (No 2) Regulations 2002* ar eu ffurf drafft, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Hydref 2002.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig**

O blaid 32; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 32

**Derbyniwyd y cynnig.**

**3.59pm**
**Cymeradwyo'r Cynllun Cyhoeddi**
***NDM1182-*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol* yn mabwysiadu'r Cynllun Cyhoeddi y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Hydref 2002, fel ei gynllun o dan adran 19 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd:
Yn nodi â phryder na chafwyd addewid i gyhoeddi gwybodaeth ar ddatblygiad siambr newydd y Cynulliad.

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd:
Yn nodi ymhellach y diffyg darpariaeth i gyhoeddi gwybodaeth ar ddatblygu ‘Llysgenadaethau’ newydd y Cynulliad.

**Gwelliant 3 - David Melding (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd:
Yn nodi gyda gofid nad oes darpariaeth i gyhoeddi’r lwfansau a hawlir gan bob Aelod o’r Cynulliad.

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O blaid 8; Ymatal 0; Yn erbyn 39; Cyfanswm 47

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2**

O blaid 8; Ymatal 0; Yn erbyn 39; Cyfanswm 47

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3**

O blaid 3; Ymatal 16; Yn erbyn 28; Cyfanswm 47

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Y cynnig**

O blaid 47; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 47

**Derbyniwyd y cynnig.**

**Cynnig i Nodi Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru - *Ni symudwyd yr eitem hon.***
**NDM1183 -** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 6.5, yn nodi Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru, 2001-02, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Gorffennaf 2002.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***

**Gwelliant 1- Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd:
Yn nodi gyda gofal y sylwadau a wnaethpwyd gan Ombwdsman y Gwasanaeth Iechyd ar y drefn gwyno o fewn y GIG.

**4.39pm**
***Cynigiodd y Trefnydd gynnig trefniadol i ohirio'r eitem ganlynol tan ddydd Mawrth 29 Hydref 2002.***

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig trefniadol:**

O blaid 41; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 41

**Derbyniwyd y cynnig trefniadol.**

**Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal**
***NDM1184 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

Gan weithredu o dan Reol Sefydlog 6.5, yn nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2002.

**4.40pm**
**Dadl Fer: *NDM1181* David Davies (Mynwy): Cau Ysgolion Bychain yng Nghymru**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.10pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 29 Hydref 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**